# Adroddiad Mesur Effaith

# Evidence of Impact Report

**Dyddiad Cyhoeddi: 11 Hydref 2024**

Publication Date: 11 October 2024

e-sgol

# Agweddau allweddol
## Key aspects

**Bwriad e-sgol yw atgyfnerthu'r system addysg yng Nghymru trwy ddulliau digidol.**

**Y nod yw darparu cyfleoedd dysgu ac addysgu ar-lein o ansawdd uchel gan sicrhau bod pob dysgwr, waeth beth fo'i leoliad daearyddol, â mynediad at yr un adnoddau a'r un profiadau addysgol.**

**Dyma rai agweddau allweddol i sicrhau bod pob myfyriwr yn cael y cyfle i gyflawni i'w lawn botensial;**

e-sgol is designed to enhance education in Wales through the use of digital learning.

The aim is to provide high-quality online teaching and learning opportunities ensuring that all learners, regardless of their geographical location, have access to the same educational resources and opportunities.

Here are some of the key aspects to ensure that every student has the opportunity to reach their full potential;

**Mynediad Teg**

Equitable Access

**Partneriaethau Cydweithredol**

Collaborative Partnerships

**Cymhwysedd Digidol**

Digital Competency

**Ymgysylltu ac Allgymorth**

Engagement and Outreach

**Profiadau Cyfoethog**


Rich Experiences

# **e-sgol ar waith**
# e-sgol at work


e-sgol

| | |
|---|---|
| 234 | **Ysgolion sy'n cymryd rhan**<br>Participating Schools |
| 88 | **Cyrsiau a gynigir**<br>Courses offered |
| 12,898 | **Disgyblion wedi ymgysylltu**<br>Pupils engaged |

**Ysgolion Cynradd**
Primary Schools




**Ysgolion Uwchradd**
Secondary Schools



# **Blaenoriaethau Gwella**
# Improvement Priorities

e-sgol

## **Gwerthusiad o Flaenoriaethau Gwella 2023/24**

## Evaluation of Improvement Priorities 2023/24

- **Datblygu agwedd newydd i'r ymgyrch hysbysebu/cynllun marchnata sy'n targedu dysgwyr, rhieni ac athrawon**
- **Cydweithio gyda'r Awdurdodau Lleol/Consortia/Ysgolion i hyrwyddo buddiannau e-sgol ymhellach**

- Develop a new approach to the advertising campaign/ marketing plan that targets learners, parents and teachers
- Collaborate with the Local Authorities/Consortia/Schools to further promote the benefits of e-sgol

**CYNNYDD CRYF**
STRONG PROGRESS

- **Cynnal Astudiaethau Achos Mewnol yn seiliedig ar y gwahanol strategaethau addysgu a goladwyd gan e-sgol**
- **Ymchwiliad mewnol i'w gyhoeddi fel rhan o raglen PYPC Llywodraeth Cymru ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth**
- **Datblygu'r Gymuned Ddysgu Proffesiynol rhwng athrawon e-sgol**

**CYNNYDD CRYF**
STRONG PROGRESS

- Conducting Internal Case Studies based on the different teaching strategies that e-sgol has collated
- Publish an internal investigation as part of the Welsh Government NPEP program in conjunction with Aberystwyth University
- Developing the Professional Learning Community between e-sgol teachers

# Blaenoriaethau Gwella
# Improvement Priorities

e-sgol

- **Cydweithio gydag ysgolion i sicrhau cynhwysiad partneriaethau e-sgol yn eu gweithdrefnau Hunanwerthuso a Chynlluniau Gwelliant eu hunain**
- **Mireinio Bwrdd Strategol y Dysgwyr**
- **Ffurfio gweithdrefn o wrando ar lais y rhieni**
- **Rhedeg peilot o system fentora**
- **Sefydlu a datblygu bwrdd strategol a gweithredol i bob rhanbarth**
- **Ffurfio gweithdrefn o dracio a monitro cyrhaeddiad y dysgwyr**
- **Datblygu darpariaeth Carlam Cymru ymhellach**

**CYNNYDD BODDHAOL**
SATISFACTORY PROGRESS

- Collaborate with schools to ensure the inclusion of e-sgol partnerships in their own Self-Evaluation procedures and Improvement Plans
- Refinement of the Learners' Strategic Board
- Forming a procedure of listening to the voice of the parents
- Run a pilot mentoring system
- Establish and develop a strategic and operational board for each region
- Formulate a procedure for tracking and monitoring the learners' attainment
- Further develop the Carlam Cymru provision

**CYNNYDD CRYF**
STRONG PROGRESS

- **Ymestyn e-sgol i ardaloedd newydd o Gymru**
- **Penodi Arweinydd e-sgol y Cynradd**
- **Dechrau ehangu darpariaeth e-sgol i'r sector Cynradd**
- **Datblygu'r bartneriaeth weithredol rhwng e-sgol a SEREN**
- **Cynnal a hyrwyddo sesiynau MGaTh o fewn pynciau e-sgol**
- **Cydweithio ymhellach gyda sefydliadau Addysg Uwch**
- **Cynnal partneriaeth gydweithredol hirdymor gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**
- **Cwblhau astudiaeth dichonoldeb i'r galw am benodi athrawon yn fewnol**
- Extending e-sgol to new areas of Wales
- Appoint an e-sgol Primary Leader
- Start expanding e-sgol provision to the Primary sector
- Develop the active partnership between e-sgol and SEREN
- Hold and promote MAT sessions within e-sgol subjects
- Further collaborate with Higher Education institutions
- Maintain a long-term collaborative partnership with the National Centre for Learning Welsh
- Complete a feasibility study into the demand for appointing teachers internally

# Ein gweledigaeth
## Our vision

e-sgol

**Anelwn at ecwiti mewn addysg trwy dechnoleg gan**

Uwchsgilio athrawon a dysgwyr

Hyrwyddo cydweithio rhwng sefydliadau addysg

Cefnogi ysgolion i ehangu profiadau’r dysgwyr

**We aim for equity in education through technology by**

Upskilling teachers and learners

Promoting collaboration between educational institutions

Supporting schools to expand the learners' experiences

# **Llais y dysgwyr**
# What the learners say

**"Mae Carlam Cymru bendant yn help anferthol i mi fel myfyriwr gan gynnig adnoddau ynghyd â chefnogaeth sy'n werthfawr iawn mewn cyfnod arholiadau."**

"Carlam Cymru is definitely a huge help to me as a student, offering resources together with support which is very valuable during exams."

## **Cynradd** Primary

**"Mwynheais i sesiynau 'E-hangu Gorwelion e-sgol yn fawr iawn. Roedden nhw wedi eu trefnu yn arbennig ac roeddwn i'n teimlo fel eu bod wedi eu cynllunio yn arbennig ar fy nghyfer i!"**
***Dysgwr Bl.6 a fynychodd Modiwl 'Llun mewn Llinell' y prosiect E-hangu Gorwelion.***
"I really enjoyed the E-xpanding Horizons e-sgol sessions. They were very well arranged and I felt like they were specially designed for me!"
*A Year 6 learner who attended the 'Llun mewn Llinell' Module of the E-xpanding Horizons project.*

## **Uwchradd** Secondary

**"Rwy'n gweld fy ngwersi e-sgol yn ddiddorol ac yn newid cyflymdra braf o'r gwersi arferol."**

**"Heb y cwrs hwn, ni fyddwn yn gallu astudio mathemateg bellach, pwnc sydd nid yn unig o ddiddordeb mawr i mi ond sydd hefyd o werth wrth wneud cais i'r prifysgolion gorau, fel yr wyf yn bwriadu ei wneud. Ymhellach, mae darpariaeth technoleg wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth astudio'r cwrs, ac ni fyddai hyn yn bosibl heb e-sgol."**

"I find my e-sgol lessons interesting and a nice change of pace from the usual in-person lessons."

"Without this course, I would not be able to study further maths, a subject which not only greatly interests me but also is of great value when applying to top universities, as I intend to do. Furthermore, the provision of technology has been greatly useful in studying the course, and this would not be possible without e-sgol."

# Carlam Cymru

**Trwy'r prosiect Carlam Cymru, rydym yn creu ac yn cynnal casgliad mawr o fideos adolygu ar gyfer dysgwyr TGAU a Safon Uwch ac mae'r gwaith yn mynd o nerth i nerth.**

Through the Carlam Cymru project, we create and maintain a large bank of revision videos for GCSE and A level learners, and the work is going from strength to strength.

**Adolygu TGAU**
GCSE revision

**Adolygu Uwch Gyfrannol**
AS Level revision

**Adolygu Safon Uwch**
A Level revision

**Lles**
Wellbeing

**Sgiliau Adolygu**
Revision skills

**Fideos a dogfennau cysylltiedig**

974

Videos and related documents

**Gwylio**

90,667

Views

**Pynciau**

**17 cyfrwng Cymraeg**
**17 cyfrwng Saesneg**
17 Welsh medium
17 English medium

Subjects

# Carlam Cymru

## **Camau nesaf** Next steps

### **Gwefan** Website

**Sicrhau bod yr holl adnoddau ar y wefan wedi'u labelu'n glir er mwyn i ddysgwyr, athrawon ac eraill allu dod o hyd i'r hyn sy'n berthnasol iddyn nhw heb drafferth.**
Ensure that all the resources on the website are clearly labelled so that learners, teachers and others can easily find what is relevant to them.

### **Ehangu'r arlwy** Expand the offer

**Ehangu'r arlwy i gynnwys pynciau'r celfyddydau mynegiannol a sicrhau bod adnoddau newydd yn y dyfodol yn cyd-fynd â'r cymwysterau TGAU newydd 'Yn arbennig i Gymru'.**
Expand the offer to include the expressive arts subjects and ensure that new resources in the future align with the new 'Made for Wales' GCSE qualifications.

### **Hyrwyddo** Promotion

**Cynyddu camau hyrwyddo er mwyn sicrhau bod mwy o ysgolion a dysgwyr yn gallu elwa o'r cyfoeth o adnoddau sydd ar gael.**
Increase promotion to ensure that more schools and learners can benefit from the wealth of revision resources available.

**"Mae Carlam Cymru yn cynnig adnoddau gwych i ddysgwyr. Mae'n bwysig iawn bod cefnogaeth ychwanegol ar gael i ddysgwyr wrth iddyn nhw adolygu yn eu hamser eu hunain y tu allan i oriau ysgol."**
"Carlam Cymru offers great resources for learners. It is very important that additional support is available to learners as they revise in their own time outside of school hours."
*Caitlin Stephens, Welsh Second Language Teacher*

**"Dwi wedi gweld, fel rhiant, y manteision y mae rhaglen Carlam wedi ei gynnig i fy mhlant fy hun. Fel pennaeth Cyfnod Allweddol 4 yn fy ysgol, rwyf hefyd yn ymwybodol iawn bod fy marn i yn un sy'n cael ei rannu gan lawer o rieni eraill."**
"I have seen, as a parent, the benefits that Carlam Cymru has offered to my own children. As the head of Key Stage 4 at my school, I am also very aware that my opinion is one that is shared by many other parents."
*Nerys Stephens*

# **Cynradd**
# Primary

**Sefydlwyd adain cynradd e-sgol yn 2024 er mwyn cynnig ecwiti o ran profiadau i ddysgwyr ieuengaf Cymru. Mae sawl peilot wedi bod ar waith yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn.**

- **Cewri Cymru: Adnoddau sy'n rhoi sylw i unigolion sydd wedi gwneud y mwyaf o'u gallu i siarad yr iaith Gymraeg. Mae'r pecynnau yn cynnwys fideo cychwynnol er mwyn cyflwyno'r cawr neu gawres, adnoddau darllen a deall wedi eu gwahaniaethu ar 11 lefel, a gwasanaethau byw achlysurol gyda'r cewri dan sylw.**
- **Yr E-steddfod: Cynhaliwyd wythnos o e-steddfodau rhwng ysgolion ar draws y wlad, gyda phob dysgwr yn cystadlu er mwyn ennill pwyntiau i'w hysgol yn fyw o'r safle!**
- **E-hangu Gorwelion: Cydweithiom gydag adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth, er mwyn creu modiwl o sesiynau cynganeddu o'r enw 'Llun mewn Llinell' ar gyfer dysgwyr talentog blynyddoedd 5 a 6.**
- **Ieithoedd Rhyngwladol: Treialom fodiwl o 4 gwers Almaeneg gyda'r Goethe Institut a brofodd i fod yn hynod o boblogaidd.**

An e-sgol primary sector was established in 2024 in order to offer equity in terms of experiences to the youngest learners in Wales. Several pilots have been in place during the first months of the year.

- Cewri Cymru: Resources that pay attention to individuals who have made the most of their ability to speak the Welsh language. The packages include an initial video to introduce the giant or giantess, reading comprehension resources differentiated at 11 levels, and occasional live assemblies with the giants in question.
- The E-steddfod: A week of e-steddfodau were held between schools across the country, with all learners competing to gain points for their school live from the site!
- E-xpanding Horizons: We collaborated with the Welsh language department at Aberystwyth University, in order to create a module of 'cynganeddu' sessions called 'Llun mewn Llinell' for talented learners in years 5 and 6.
- International Languages: We trialled a module of 4 German lessons with the Goethe Institut which proved to be extremely popular.

# Cynradd
# Primary

e-sgol

## Cewri Cymru

10,000+

**Y nifer o ddysgwyr sydd wedi defnyddio'r adnoddau darllen**
The number of learners who have used the reading resources

3,000+

**Y nifer o 'views' ar y rhestr chwarae YouTube**
The number of views on the YouTube playlist

## Yr E-steddfod

15

**ysgol gynradd a gymerodd ran**
primary schools took part

500+

**Y nifer o ddysgwyr a gymerodd ran**
The number of learners who took part

5,000+

**Y nifer o 'views' o'r ffrwd byw ar Facebook**
The number of views' on the live stream on Facebook

## Almaeneg

58

**Y nifer o ysgolion â gofrestrodd**
The number of schools registered

76

**Y nifer o ddosbarthiadau â gofrestrodd**
The number of classes registered

1,500+

**Y nifer o ddysgwyr a gymerodd ran**
The number of learners who took part

800+

**Y nifer o ddyfeisiau a ddefnyddiwyd yn wythnosol mewn cwisiau Kahoot, byw!**
The number of devices used weekly in Kahoot quizzes, live!

## E-hangu Gorwelion

65

**Y nifer o ddysgwyr a gymerodd ran**
The number of learners who took part

2,000+

**Y nifer o droeon defnyddiwyd y 'chat' yn ystod y sesiynau gan ddysgwyr brwd!**
The number of times the 'chat' was used during the sessions by enthusiastic learners!

# **Astudiaeth Achos**
# Case Study

## Ysgol Penparc:
## Modiwl Llun mewn Llinell o'r Prosiect E-hangu Gorwelion

**"Mae wedi bod yn fraint i ddysgwyr Ysgol Penparc i gyd-weithio gydag e-sgol ar y gwersi 'Llun mewn Llinell', fel rhan o'r prosiect 'E-hangu Gorwelion'. Roedden nhw'n wersi arbennig ar gyfer ein dysgwyr mwy abl a thalentog. Mae'r sesiynau wedi'u cynllunio'n arbennig gan roi'r lefel cywir o her, ac mae dysgwyr yn mwynhau mynychu'r sesiynau gan wneud gwaith sydd yn gymhleth ond wedi'i lunio mewn ffordd hwylus. Mae'r plant wir wedi mwynhau yn fawr ac rydym yn falch iawn o fod wedi cael y cyfle i gymryd rhan ynddyn nhw."**

"It has been a privilege for Ysgol Penparc learners to work together with e-sgol on the 'Llun mewn Llinell' lessons, as part of the 'E-xpanding Horizons' project. They were special lessons for our more able and talented learners. The sessions are specially designed giving the right level of challenge, and learners enjoy attending the sessions, doing work that is complex but designed in an easy way. The children have really enjoyed and we are very proud to have had the opportunity to take part in them."

*Trystan Phillips, Headteacher*

**Mwynhad y dysgwyr** Learners' enjoyment **10/10**
**Dargadwedd** Session retention **10/10**

**A oedd y sesiynau yn ddefnyddiol i chi fel athro?**

**"Oedden – cyflwynwyd y sgil mewn ffyrdd gwahanol gan fod y testun yn un heriol e.e. cynganeddu, wedi'i addysgu mewn ffordd hollol wahanol i natur addysgu pan oeddwn i'n blentyn ysgol."**

Were the sessions useful to you as a teacher?

"Yes - the skill was presented in different ways as the text was challenging e.g. cynganeddu, taught in a completely different way to the nature of teaching when I was at school."

**Camau Nesaf** Next steps

**"Buasem wrth ein boddau pe bai mwy o sesiynau tebyg yn cael eu cynllunio. Byddai rhai Mathemateg a Saesneg yn enwedig yn arbennig!"**


"We would love it if more similar sessions were planned. Maths and English would be great!"




# **Uwchradd**
# Secondary

**Sefydlwyd e-sgol yn wreiddiol i gynorthwyo ysgolion Uwchradd llai eu maint i gydweithio er mwyn cynyddu'r nifer o gyrsiau sydd ar gael i'w dysgwyr nhw, yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg. Bellach, mae gwasnaethau e-sgol ar gael i bob math o ysgolion Uwchradd yng Nghymru i annog cydweithio ac ecwiti er lles pob disgybl.**


E-sgol was originally established to help smaller secondary schools to work together in order to increase the number of courses available to their learners, mainly through the medium of Welsh. E-sgol services are now available to all types of Secondary schools in Wales to encourage collaboration and equity for the benefit of all pupils.




## **Holiadur Llais y Disgybl 2023-2024**
## Pupil Voice Questionnaire 2023-2024



**Mae gwaith yn y rhan fwyaf o fy ngwersi e-sgol yn...**
The work in most of my e-sgol lessons is...
- **iawn** about right: 90.6%
- **hawdd** easy: 0.9%
- **galed** hard: 8.5%



**Rwy'n gweld fy ngwersi e-sgol yn ddiddorol...**
I find my e-sgol lessons interesting...
- **drwy'r amser / rhan fwyaf o'r amser**
  all of the time / most of the time: 89.7%
- **braidd byth / byth** almost never / never: 10.3%

# **Model dysgu hybrid**
# Hybrid learning model

e-sgol

**Mae Dysgu Hybrid yn caniatau myfyrwyr i gael mynediad at wersi trwy fodel dysgu cydamserol o bell neu sesiynau wyneb yn wyneb.**

Hybrid Learning allows students to access lessons through asynchronous distance learning model or face-to-face sessions.

**Myfyrwyr i gael mynediad at sesiynau e-sgol ar-lein ar amseroedd a drefnwyd.**
Students to have access to on-line e-sgol lessons at arranged times

**Cydamserol o Bell**

Synchronous Remote Learning

**Wyneb yn wyneb**

Face to face

**Anghydamserol o Bell**

Asynchronous Remote Learning

**Myfyrwyr i fynychu sesiynau yn gorfforol yn ystod cyfnodau a drefnwyd gan yr ysgol sy'n cynnal y cwrs.**
Students to physically attend sessions at times arranged by the school that provides the course.

**Myfyrwyr i gael tasgau i'w cwblhau ar amser o'u dewis, ond o fewn amserlen benodol.**
Students to have tasks to complete at times of their choice but within a certain timetable.

# e-sgol ar daith
## e-sgol on the road










- **Digwyddiadau Tegwch a Chynwysoldeb Cwricwlwm i Gymru**
  Curriculum for Wales Equity and Inclusion Events
- **Eisteddfod yr Urdd**
- **Sioe Addysg Genedlaethol**
  National Education Show
- **Sgwrs am Carlam Cymru ar Radio Cymru**
  Radio interview about Carlam Cymru
- **Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf**



# **Blaenoriaethau Gwella 2024/25**
# Improvement Priorities 2024/25

e-sgol

## 1

**Hyrwyddo**
- **Lansio gwefan a fideos hyrwyddo proffesiynol newydd**
- **Sicrhau presenoldeb mewn digwyddiadau ymgysylltu megis Eisteddfodau a'r Sioe Addysg Genedlaethol**
- **Cydweithio gyda'r Awdurdodau Lleol/Consortia/Ysgolion i hyrwyddo buddiannau e-sgol**
- **Cynnal Cynhadledd e-sgol yng Ngogledd Cymru yn ystod Tymor yr Haf 2025**

Promotion
- Launch a new website and professional promotional videos
- Ensure attendance at engagement events such as Eisteddfodau and the National Education Show
- Collaborate with the Local Authorities/Consortia/Schools to promote the interests of e-sgol
- Hold the e-sgol Conference in North Wales during the Summer Term 2025

## 2

**Ymchwil**
- **Cynnal Astudiaethau Achos Mewnol ar gread partneriaeth gydweithredol newydd yn y sector uwchradd**
- **Datblygu'r Gymuned Ddysgu Proffesiynol rhwng athrawon e-sgol**
- **Cydweithio ymhellach gyda sefydliadau Addysg Uwch**

Research
- Conduct Internal Case Studies on the creation of a new collaborative partnership in the secondary sector
- Developing the Professional Learning Community between e-sgol teachers
- Further collaboration with Higher Education institutions

# **Blaenoriaethau Gwella 2024/25**
# Improvement Priorities 2024/25

e-sgol

## 3

**Mireinio'r Ddarpariaeth Bresennol**

- **Cydweithio gydag ysgolion i sicrhau cynhwysiad partneriaethau e-sgol yn eu gweithdrefnau Rheoli Perfformiad**
- **Ffurfio Fforwm Ieuenctid**
- **Sefydlu a datblygu Bwrdd Gweithredol i bob rhanbarth**
- **Datblygu darpariaeth Carlam Cymru ymhellach i gyd-fynd gyda gofynion cymwysterau Gwneud-i-Gymru**

Refine the Current Provision

- Collaborate with schools to ensure the inclusion of e-sgol partnerships in their Performance Management procedures
- Form a Youth Forum
- Establish and develop an Executive Board for each region
- Further develop Calam Cymru's provision to meet the requirements of the Made for Wales qualifications

## 4

**Esblygu ac Ehangu**

- **Ymestyn e-sgol i ardaloedd newydd o Gymru i gyd-fynd gyda gweledigaeth Llywodraeth Cymru**
- **Ffurfio calendr o ddigwyddiadau'r sector Cynradd**
- **Cynnal Peilot Gwersi Cymraeg i ysgolion cynradd**
- **Ymgymryd â phrosiect newydd i gefnogi prosiectau mentergarwch mewn ysgolion**

Evolve and Expand

- Extend e-sgol to new areas of Wales to match the Welsh Government's vision
- Form a calendar of events for the Primary sector
- Conduct Pilot Welsh Lessons for primary schools
- Undertake a new project to support entrepreneurship projects in schools

e-sgol

e-sgol.cymru